Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Biliau Brys

## Briff Ymchwil

Ionawr 2026



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Biliau Brys
Briff Ymchwil

Ionawr 2026

**Awduron:**
Nia Moss & Adam Cooke

# Cynnwys

**1. Biliau Brys y Llywodraeth ........................................................ 1**

Beth yw Bil Brys? ........................................................................................ 1

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Bil Brys ac un sy'n dilyn y broses ddeddfwriaethol arferol? ........................................................................ 1

Beth yw'r amserlen ar gyfer Bil Brys? ........................................................ 2

Pa gyfnodau craffu y mae Bil Brys yn mynd drwyddynt? ........................ 2

Beth am yr amseriad ar gyfer cyflwyno gwelliannau? ............................ 3

Biliau Brys a basiwyd gan y Senedd ........................................................ 3

Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ................................................ 3

Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 ............ 3

Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 ........................................ 4

# 1. Biliau Brys y Llywodraeth

## Beth yw Bil Brys?

Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses ddeddfu arferol y Senedd yn ei ganiatáu. Mae **Rheol Sefydlog 26.95** yn datgan:

> Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Senedd, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.

Mae darpariaethau a gweithdrefnau arbennig yn berthnasol i Filiau Brys y llywodraeth sy'n wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i Filiau sy'n mynd trwy'r weithdrefn ddeddfwriaethol arferol.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Bil Brys ac un sy'n dilyn y broses ddeddfwriaethol arferol?

Diben cyflwyno Bil Brys yw sicrhau bod modd deddfu darpariaethau cyfreithiol brys yn gyflym. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd (y rheolau sy'n llywodraethu sut mae'r Senedd yn gweithredu) yn nodi fersiwn symlach o brosesau deddfu arferol y Senedd er mwyn osgoi unrhyw oedi.

Amlinellir y broses ar gyfer Bil Brys y Llywodraeth isod:

- Cyn y caniateir i'r Llywodraeth gyflwyno Bil Brys i'r Senedd, rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru wneud cynnig i'r Senedd yn gyntaf yn gofyn i'r Senedd gytuno y gellir cyflwyno'r Bil fel Bil Brys (Rheol Sefydlog 26.95).
- Rhaid i ddatganiad gan yr Aelod o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am y Bil gael ei wneud gyda'r cynnig hwnnw yn egluro:
  - pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; ac
  - amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny.
- Rhaid i'r Senedd gytuno ar y cynnig cyn bod modd bwrw ymlaen â Bil Brys.
- Pan gyflwynir Bil i'r Senedd, fel rheol mae'n rhaid cyhoeddi Memorandwm Esboniadol ochr yn ochr ag ef. Ar gyfer Biliau Brys, gall y Llywodraeth gynnig yn y cynnig y maent yn ei gyflwyno y dylid cyflwyno'r Bil heb Femorandwm Esboniadol.

- Pan gyflwynir Bil Brys yn y Senedd, rhaid cael datganiad i gyd-fynd ag ef gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, yn datgan bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ym marn yr Aelod.

## Beth yw'r amserlen ar gyfer Bil Brys?

Os bydd y Senedd yn cytuno ar gynnig yn gofyn i Fil gael ei drin fel Bil Brys yna rhaid i'r Aelod o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol gyflwyno cynnig pellach yn cynnig amserlen ar gyfer ystyried Cyfnodau 1 i 4 o'r Bil Brys. (Rheol Sefydlog 26.98(ii))

Pe bai'r Llywodraeth yn credu ei bod yn angenrheidiol, a phe bai'r Senedd yn cytuno, gellid cymryd pob Cyfnod mewn un diwrnod gwaith.

Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r amserlen, ond rhaid rhoi rhesymau i'r Senedd dros y newidiadau hynny. Mae hon yn wahanol i'r broses arferol ar gyfer pennu amserlen ar gyfer ystyried Bil nad yw'n Fil Brys, lle bydd Pwyllgor Busnes y Senedd yn penderfynu ar hynny.

## Pa gyfnodau craffu y mae Bil Brys yn mynd drwyddynt?

Mae'r modd y mae'r Senedd yn ystyried Bil Brys yn dilyn **y broses ddeddfwriaethol pedwar cyfnod arferol** yn fras, ond gyda rhai addasiadau sylweddol er mwyn ei chyflymu. Amlinellir y rhain isod:

- Yng Nghyfnod 1, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno cynnig bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys.
- Rhaid i Gyfnod 2 Bil Brys gael ei ystyried gan Bwyllgor o'r Senedd Gyfan a gaiff ei gadeirio gan y Llywydd (yn hytrach na Phwyllgor y Senedd). Mae holl Aelodau'r Senedd yn cwrdd mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. Bydd y cyfarfod fel arfer yn cael ei gynnal yn y Siambr a bydd i raddau helaeth yn dilyn yr un rheolau ar gyfer ei weithdrefnau â chyfarfod Pwyllgor arferol.
- Nid oes angen y bwlch arferol o 15 diwrnod gwaith rhwng Cyfnod 1 a Chyfnod 2 wrth ystyried Bil Brys. Mae gofyniad y Rheol Sefydlog bod Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben wedi'i ddatgymhwyso. Felly gall trafodion Cyfnod 2 ddigwydd ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 1
- Nid oes angen bwlch o 15 diwrnod gwaith rhwng Cyfnod 2 a Chyfnod 3 ychwaith wrth ystyried Bil Brys. Mae gofyniad y Rheol Sefydlog bod Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben wedi'i ddatgymhwyso. Felly, gall trafodion Cyfnod 3 ddigwydd ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2.

- Nid oes cyfnod adrodd wrth ystyried Bil Brys.
- Nid oes yn rhaid i destun Bil Brys fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg er mwyn iddo gael ei basio gan y Senedd yng Nghyfnod 4.

## Beth am yr amseriad ar gyfer cyflwyno gwelliannau?

Nid yw'r gofyniad arferol y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno o leiaf bum niwrnod cyn y maent i gael eu hystyried yn berthnasol wrth ystyried Biliau Brys. Yn hytrach, caniateir i'r Llywydd benderfynu ar faint o rybudd y mae'n rhaid i Aelod ei roi os yw'n bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Brys.

## Biliau Brys a basiwyd gan y Senedd

Hyd at 7 Ionawr 2026, dim ond tri Bil Brys y mae'r Senedd wedi'u pasio erioed, sef:

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

Pasiodd y Pedwerydd Cynulliad **Fil Sector Amaethyddol (Cymru)** ym mis Gorffennaf 2013 ond oherwydd her gyfreithiol yn y Goruchaf Lys, ni chafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol tan fis Gorffennaf 2014.

Cyflwynwyd y Bil ar 8 Gorffennaf 2013. Cynhaliwyd y ddadl Cyfnod 1 ar 9 Gorffennaf a chynhaliwyd Cyfnod 2, a oedd yn cynnwys Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan, ar 16 Gorffennaf. Digwyddodd Cyfnodau 3 a 4 ar 17 Gorffennaf.

### Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

Ystyriodd y Pumed Cynulliad, sydd bellach yn Senedd, **Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** ym mis Mawrth 2018. Cyflwynwyd y Bil ar 7 Mawrth 2018. Cyflwynwyd y Bil yn dilyn anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.**

Cynhaliwyd dadl Cyfnod 1 ar 13 Mawrth a Chyfnod 2 ar 20 Mawrth. Cynhaliwyd Cyfnod 3 a 4 ar 21 Mawrth. Yn dilyn hynny, cyfeiriwyd y Bil at y Goruchaf Lys ond cafodd yr her gyfreithiol **ei thynnu'n ôl** ar ôl dod i gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2018 ond cafodd **ei diddymu wedi hynny** ar 22 Tachwedd 2018.

## Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)** ar 27 Ionawr 2021. Cyflwynwyd y Bil mewn ymateb i'r risgiau posibl wrth gynnal etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws. Ei nod oedd sicrhau bod modd gweinyddu a chynnal yr etholiad yn ddiogel a bod modd i'r etholwyr gymryd rhan a phleidleisio, neu, pe bai angen, bod modd gohirio'r etholiad.

Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil ar 1 Chwefror 2021. Derbyniodd y Senedd egwyddorion cyffredinol y Bil ar 2 Chwefror 2021. Trafododd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan welliannau Cyfnod 2 ar 9 Chwefror 2021. Cynhaliwyd trafodaeth Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Chwefror 2021.

Derbyniodd y Senedd y Bil ar 10 Chwefror 2021. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinolo ar 16 Mawrth 2021.

Dirymwyd y Ddeddf ym mis Medi 2025.